**ADRODDIAD I'R CYD-BWYLLGOR**

**12 TACHWEDD 2015**

**Adroddiad gan:** Cyfarwyddwr Arweiniol GwE / Cadeirydd y Bwrdd Rheoli

**Pwnc:** Rhwydweithiau Rhanbarthol

## 1.0 Pwrpas yr Adroddiad

1.1 Diweddaru aelodau ar y strwythur Rhwydweithiau Rhanbarthol a chytuno ar gylch adrodd yn ôl i'r Cyd-bwyllgor

## 2.0 Cefndir

2.1 Yn dilyn cyhoeddi Model Cenedlaethol ar gyfer Gweithio'n Rhanbarthol Llywodraeth Cymru (Chwefror 2014), cyflwynwyd cynllun busnes i'r Cyd-bwyllgor yn manylu ar yr elfennau ychwanegol sy'n rhan o'r Model Cenedlaethol nad yw staff craidd GwE yn ymwneud â nhw ar hyn o bryd. Cytunodd y Cyd-bwyllgor ar y cynllun busnes hwn (15 Gorffennaf 2015).

Roedd y rhain yn cynnwys:

a) Cyngor a Chymorth Llywodraethwyr
b) Cyfnod Sylfaen
c) Cynnig Llwybrau Dysgu 14 i 19
d) Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg a Grant y Gymraeg mewn Addysg
e) Cydlynu'r Strategaeth TGCh yn rhanbarthol
f) Cymorth AD arbenigol

2.2 Cytunwyd y byddai'r Awdurdodau Lleol yn parhau yn gyfrifol am gynllunio a chyflawni'r elfennau yma, gyda'r Rhwydweithiau Rhanbarthol presennol yn parhau i weithio ar y cyd ar arwain yn rhanbarthol.

2.3 Cedwir £463,004 (11.5% o Gyllideb Graidd £4.186m GwE) gan yr Awdurdodau Lleol i gyflawni elfennau a), e) ac f) uchod trwy gyfrwng y Rhwydweithiau Rhanbarthol.
Ariennir y gweddill, sef b), c), a d) uchod ynghyd ag amrywiaeth o swyddogaethau gwella ysgol eraill, gan elfen anddirprwyedig y Grant Gwella Addysg, cyfanswm o £5.48m. Mae'r cyllid hwn wedi'i ddosbarthu fel a ganlyn:

Rhwydweithiau Rhanbarthol : £4.6m

GwE : £860k

Felly, mae'r dyraniad cyllid gan gynnwys swyddogaethau'r Model Cenedlaethol a GGA anddirprwyedig, fel a ganlyn:

| | Model Cenedlaethol | GGA anddirprwyedig | CYFANSWM |
|---|---|---|---|
| GwE | £3.69m | £0.8m | £4.49m |
| Rhwydweithiau Rhanbarthol | £0.46m | £4.68m | £5.14m |
| | £4.156m | £5.486m | £9.64m |

**3.0 Materion i'w hystyried**

**3.1** Mae'r rhwydweithiau llawn fel a ganlyn (mae'r strwythur wedi'i gynnwys yn atodiad 1):

**3.1.1 Rhwydwaith Gwella Ysgolion**
Mae'r rhwydwaith hwn yn monitro ac yn herio effeithiolrwydd GwE a'r rhwydweithiau isod. Mae'n edrych ar bolisïau ac arferion ac yn cytuno ar flaenoriaethau er mwyn bodloni gofynion codi safonau a gwella perfformiad ysgol ar gyfer disgyblion ym mhob categori.
**Cyfarwyddwr (sy'n) Noddi / Cadeirydd:** Delyth Molyneux (Ynys Môn)
**Aelodaeth:** Uwch Swyddog o bob ALl; Uwch Ymgynghorwyr Her GwE

- **Rhwydwaith 14-19 -** bydd y rhwydwaith hwn yn darparu trosolwg o'r cynnig 14-19 rhanbarthol, gan gynnwys dyrannu adnoddau ar gyfer rhaglenni yn unol â blaenoriaethau Llywodraeth Cymru. Bydd hyn yn cynnwys: cefnogaeth i gynllunio sut i ddefnyddio'r grantiau; sicrhau bod ysgolion a darpariaeth y darparwr yn cyflawni'r effaith ddisgwyliedig sy'n rhan hanfodol o'r grantiau yma; gweithio gydag awdurdodau lleol i gynnig trosolwg strategol er mwyn cefnogi a herio pob darparwr; cynnwys colegau Addysg Bellach a darparwyr hyfforddiant preifat er sicrhau cydraddoldeb o ran mynediad i'r cyfleoedd datblygu; gweinyddu'r grantiau perthnasol a chydlynu a chefnogi ceisiadau ar gyfer grantiau sydd ar y gweill.
  **Cyfarwyddwr (sy'n) Noddi:** Karen Evans (Sir Ddinbych)
  **Cadeirydd:** John Gambles (Sir Ddinbych)
  **Aelodaeth:** Cynrychiolwyr LAN, cynrychiolydd o GwE

- **Rhwydwaith Cyfnod Sylfaen** - yn y Rhwydwaith hwn daw uwch swyddogion y Cyfnod Sylfaen ynghyd i gynnig trosolwg strategol o ddatblygiadau o fewn y Cyfnod Sylfaen, yn cynnwys lleoliadau a gynhelir a lleoliadau nas cynhelir a ariennir. Mae'n darparu arweinyddiaeth a chyfeiriad yn y maes allweddol hwn, cefnogi perthnasau gwaith da rhwng Awdurdodau Lleol unigol a GwE a gall fod yn hwylusydd i gefnogi trosglwyddo'r Cyfnod Sylfaen i'r Gwasanaeth Rhanbarthol (yn unol â'r Model Cenedlaethol), pan fydd y Cyfarwyddwyr yn ystyried hyn yn briodol. Gall y Rhwydwaith hefyd ddatblygu rhwydweithiau arfer dda a hyfforddiant ar y cyd ar draws y rhanbarth, yn enwedig yn sgil newidiadau i strwythur grant y Cyfnod Sylfaen ac addasiadau diweddar i strwythur y cwricwlwm, a'r newidiadau disgwyliedig hynny o ganlyniad i Archwiliad y Cyfnod Sylfaen ac Adroddiad Donaldson.
  **Cyfarwyddwr (sy'n) Noddi:** John Davies (Wrecsam)
  **Cadeirydd:** Claire Homard (Sir Y Fflint)
  **Aelodaeth:** Uwch Swyddogion o bob ALl gyda chyfrifoldeb am y Cyfnod Sylfaen, cynrychiolydd o GwE.

- **Rhwydwaith TGCh a Data –** mae'r Rhwydwaith hwn yn goruchwylio creu platfformau meddalwedd cyffredin a chronfeydd data ar gyfer y gwasanaeth addysg yn y rhanbarth gyda golwg ar gyfoethogi a chynnal gweithio ar y cyd.
  **Cyfarwyddwr (sy'n) Noddi:** John Davies (Wrecsam)
  **Cadeirydd:** Simon Billington (Wrecsam)
  **Aelodaeth:** Swyddogion o bob ALl, Rheolwr Gwybodaeth GwE

**Rhwydwaith Cymorth Llywodraethwyr**
Mae'r rhwydwaith hwn yn cyfarfod o leiaf unwaith y tymor i rannu arfer orau. Mae'n cydlynu ac yn cyd-gyflawni rhaglen hyfforddiant ranbarthol statudol Llywodraethwyr Cymru; cynnig arweiniad a chymorth ar gyfer cynhadledd flynyddol i Lywodraethwyr sy'n gydnaws â blaenoriaethau cenedlaethol, rhanbarthol a lleol; ar y cyd â Cynnal, mae wedi datblygu pecyn cymorth e-ddysgu i Lywodraethwyr. Mae'r pecyn cymorth hwn bellach wedi'i gyflwyno i gonsortia eraill ac mae'r grŵp yn parhau i arwain ar ddatblygu hwn.
**Cyfarwyddwr (sy'n) Noddi:** John Davies (Wrecsam)
**Cadeirydd:** Ray Wells, Swyddog Datblygu Rhanbarthol, Llywodraethwyr Cymru
**Aelodaeth:** Swyddog Cymorth Llywodraethwyr o bob Awdurdod Lleol a cynrychiolydd o GwE

### 3.1.2 Rhwydwaith Cyllid ac Adnoddau
Mae'r rhwydwaith hwn yn rhoi sylw i faterion yn ymwneud â Grantiau rhanbarthol, cyllid ysgol, darparu lleoedd, rhaglenni cyfalaf ac ati yng nghyd-destun datblygu trefniadau gweithio ar y cyd, cysondeb o ran polisïau ac arfer a chomisiynu cytundebau cost ar y cyd. Yn y dyfodol, bydd hefyd yn edrych ar feysydd eraill ble gall y chwe ALl gydweithio.
**Cyfarwyddwr (sy'n) Noddi / Cadeirydd:** John Davies (Wrecsam)
**Aelodaeth:** Swyddog Cyllid o bob ALl; Rheolwr Busnes a Chyllid GwE

**Rhwydwaith Adnoddau Dynol**
Mae'r rhwydwaith hwn yn hyrwyddo mwy o gydweithio i ddatblygu gwasanaethau AD sy'n sicrhau cyngor a chymorth o safon uchel yn gyson i arweinwyr ysgolion, gan arwain at well capasiti a datblygu system ysgol sy'n hunan-wella (gan gyfrannu at Amcan Strategol 4 Cymwys am Oes) ar hyd a lled y rhanbarth. Yn allweddol i hyn y mae datblygu a hybu gweithdrefnau model rhanbarthol i reoli presenoldeb staff, rheoli perfformiad a medrusrwydd a sicrhau cysondeb o ran cyngor ac arfer.
**Cyfarwyddwr (sy'n) Noddi:** John Davies (Wrecsam)
**Cadeirydd:** Julie Worrall (Sir Ddinbych)
**Aelodaeth:** Rheolwyr AD/ Partneriaid Busnes o bob ALl

**3.1.3 Rhwydwaith Cyfrwng Cymraeg a Adeiladu Cynhwysedd -** mae'r rhwydwaith hwn yn hybu mwy o gydweithio a rhannu arbenigedd ym maes addysg cyfrwng Cymraeg er bodloni anghenion amrywiol y rhanbarth. Mae'n ceisio gwella cydraddoldeb o ran darpariaeth a chysondeb a datblygu polisïau ac arferion i rannu arbenigedd mewn meysydd gweithgarwch eraill.
**Cyfarwyddwr (sy'n) Noddi:** Arwyn Thomas (Gwynedd)
**Cadeirydd:** Garem Jackson (Gwynedd), ar ran Arwyn Thomas
**Aelodaeth:** Swyddogion o bob ALl, cynrychiolydd o GwE

**3.1.4 Rhwydwaith Lles a Phartneriaethau –** mae'r Rhwydwaith hwn yn rhoi sylw i faterion yn ymwneud â galluogi disgyblion i gymryd rhan yn llawn a bod darpariaeth y gwasanaeth addysg yn deg er gwella safonau. Mae'n cynnwys arbenigwyr o bob awdurdod sydd wedi'u hadnabod yn y meysydd gweithgarwch hyn.
**Cyfarwyddwr (sy'n) Noddi / Cadeirydd:** Richard Ellis Owen (Conwy)
**Aelodaeth:** Swyddogion Ymgynnwys a Swyddogion Ymgynnwys Cymdeithasol o bob ALl, cynrychiolydd o GwE

**3.2 Adrodd –** cynigir y broses adrodd a ganlyn:

- Mae pob rhwydwaith yn adrodd i Fwrdd Rheoli GwE
- Cofnodion y cyfarfodydd i'w rhannu â Bwrdd Rheoli GwE
- Aelodau'r Cyd-bwyllgor i gael adroddiad cynnydd gan un o'r rhwydweithiau yn y cyfarfod tymhorol. Cynigir bod yr adroddiad cyntaf yn cael ei gyflwyno yng nghyfarfod nesaf y Cyd-bwyllgor a bydd yn adroddiad gan y Rhwydwaith Cyfrwng Cymraeg a Adeiladu Cynhwysedd.

**4.0 Argymhellion**

4.1 Gofynnir i'r Cyd-bwyllgor:

4.1.1 Nodi cynnwys yr adroddiad

4.1.2 Cytuno ar y broses adrodd arfaethedig

**5.0 Goblygiadau ariannol**

5.1 Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol newydd yn codi o'r adroddiad hwn

**6.0 Effaith o ran cydraddoldeb**

6.1 Nid oes unrhyw effaith newydd o ran cydraddoldeb yn codi o'r adroddiad hwn

**7.0 Goblygiadau Personél**

7.1 Nid oes unrhyw oblygiadau newydd o ran personél yn codi o'r adroddiad hwn

**8.0 Ymgynghori a wnaed**

8.1 Mae Bwrdd Rheoli GwE wedi cytuno ar y strwythur hwn

**9.0 Atodiadau**

9.1 Strwythur Rhwydweithiau

**BARN Y SWYDDOGION STATUDOL**

**Swyddog Monitro:**

Rhoddi'r unrhyw sylwadau yn y cyfarfod.

**Swyddog Cyllid Statudol:**

Rwyf wedi derbyn sicrwydd fod unrhyw oblygiadau ariannol perthnasol i'w ariannu o adnoddau presennol GwE a/neu grantiau penodol.

**Atodiad 1: Strwythur Rhwydweithiau**

